

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At:	Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau	Dyddiad:	Dydd Gwener, 12 Rhagfyr 2014
		Rhif Union:	01824 712554
		ebost:	dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 18 RHAGFYR 2014 am 9.30 am yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaid

## AGENDA

### RHAN 1

#### 1 YMDDIHEURIADAU

#### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### 3 MATERION BRYNS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2014 (copi ynghlwm).

**5 PARTNERIAETH CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG** (Tudalennau 17 - 38)

I ystyried adroddiad (copi yn amgaëdig) gan yr Arweinydd Tîm Datblygu Busnes ac Economi (De) am sefyllfa bresennol dull partneriaethol Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r Cynllun Datblygu Gwledig (2007-2013). Yn ogystal darperir gwybodaeth ynglŷn â'r cynlluniau arfaethedig o ran cyllid datblygu gwledig ar gyfer y cyfnod 2014 - 2020.

**9:35am – 10:15am**

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR AMDDIFFYN OEDOLION YN SIR DDINBYCH 1 EBRILL 2013 I'R 31 MAWRTH 2014** (Tudalennau 39 - 52)

I ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn ynghyd â'r Adroddiad Blynnyddol ar Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn yn Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn 1af Ebrill 2013 i'r 31ain Mawrth 2014 (copi yn amgaëdig) sydd yn amlinellu effeithiau'r mesurau amddiffyn ac yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu'r cynnydd a wnaed yn y maes allweddol hwn ynghyd â chyd nabod ei bwysigrwydd.

**10:15am – 11am**

**EGWYL**

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 53 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi yn amgaëdig) sydd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith ac sydd yn cyflwyno'r diweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

**11:10am – 11:25am**

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddarriadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyddau a Grwpiau'r Cyngor.

**11:25am – 11:30am**

**RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL**

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

## **9 PERFFORMIAD AC ADOLYGIAD Y GWASANAETH TREFTADAETH**

(Tudalennau 67 - 76)

I ystyried cyd-adroddiad cyfrinachol gan y Rheolwr Masnachol Treftadaeth, y Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth, a Phennaeth y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol (copi yn amgaëdig) sydd yn amlinellu y newidiadau a wnaed o fewn Gwasanaethau Treftadaeth y Cyngor ac sydd yn ceisio barn yr aelodau ar ddarparu y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

**11:30am – 12:15pm**

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Ann Davies  
Meirick Davies  
Richard Davies  
Pat Jones

Y Cynghorydd Ray Bartley (Is-Gadeirydd)

Margaret McCarroll  
Dewi Owens  
Merfyn Parry  
Bill Tasker

## **COPIAU I'R:**

Holl Gyngorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchenog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

**Code of Conduct for Members**

**DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS**

I, (name) \_\_\_\_\_

a \*member/co-opted member of  
(\*please delete as appropriate)

**Denbighshire County Council**

**CONFIRM** that I have declared a \*personal / personal and prejudicial interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:

(\*please delete as appropriate)

Date of Disclosure:

Committee (*please specify*):

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

(See the note below)\*

Signed \_\_\_\_\_

Date \_\_\_\_\_

\*Note: Please provide sufficient detail e.g. 'I am the owner of land adjacent to the application for planning permission made by Mr Jones', or 'My husband / wife is an employee of the company which has made an application for financial assistance'.

# Eitem Agenda 4

**Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau held on Dydd Iau, 6 Tachwedd 2014 at 9.30 am at Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun**

**Yn bresennol:**

Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Pat Jones, Margaret McCarroll, Merfyn Parry a/ac Bill Tasker

**Hefyd yn bresennol:**

Nicola Stubbins (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Phil Gilroy (Pennaeth Gwasanaeth Oedolion a Busnes), Cathy Curtis-Nelson (Rheolwr Gwasanaeth, Ardal y Gogledd), Rhian Evans (Cydlynnydd Archwilio), Karen Evans (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd).

BIPBC - Sally Baxter (Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaeth Cynllunio), Tracey Cooper (Cyfarwyddwr Cynorthwyo Nrysio), Janet Ellis, Catherine Owen-Jones, Meinir Williams (Pennaeth Staff Cysylltiol, Nrysio)

Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant.

---

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Dewi Owens

## 2 DATGAN CYSYLTIAD

Mynegodd y Cynghorydd Bill Tasker gysylltiad personol fel aelod o'r Cyngor lechyd Cymuned yn eitem rhif 5 ar y rhaglen.

Mynegodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones gysylltiad personol yn eitemau 5 a 6 oherwydd bod ei chwaer yn gweithio i Fwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Mynegodd y Cynghorydd Ann Davies gysylltiad personol gan bod ei mab yng nghyfraith yn gweithio i BIPBC.

## 3 MATERION BRYNS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys, foddy bynnag, gyda chytundeb y Pwyllgor, newidiodd y Cadeirydd drefn y busnes ar y rhaglen gan ymdrin ag eitem 7 cyn eitem 6.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau 25 Medi, 2014.

### Materion yn Codi

Roedd yr adroddiad gwybodaeth am aelodaeth y Bwrdd Diogelu Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant a Grŵp Cyflwyno BLIDP Conwy wedi'i ddosbarthu fel y gofynnwyd.

Roedd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn ystyried adroddiad ar deledu cylch caeedig ar 20 Tachwedd 2014.

**Penderfynwyd y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau, 25 Medi 2014 fel cofnod cywir.**

## 5 FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL AR GYFER POBL HŶN AG ANGHENION CYMHLETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) tra y bu'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes a Chyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro BIPBC, yn rhoi gwybod i'r pwyllgor sut roedd y prosiect yn datblygu mewn perthynas â meysydd priodol.

Fe atgoffwyd y Pwyllgor o faint y prosiect hwn gan ddweud bod y Comisiynydd Pobl Hŷn yn awyddus iawn i hyrwyddo'r gwasanaeth a'i weld yn ymestyn i fodel gwasanaeth 7 diwrnod. Er mwyn i hyn gael ei gyflawni mae angen gwneud llawer iawn o waith ac mae angen dod o hyd i'r adnoddau i'w gefnogi. Nodwyd:

- bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyfradd boddhad uchel gyda'r gwasanaeth hyd yn hyn
- yn allweddol i gyflwyno gwasanaeth da fyddai llywodraethu da, felly yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Bwrdd lechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben ac yn cyd-fynd â strwythurau newidiol y Bwrdd lechyd.

Mynegodd aelodau'r pwyllgor bryderon am adroddiadau a dderbyniwyd gan etholwyr bod gofal cleifion mewn ysbytai yn amhersonol weithiau, a bod y diffyg empathi a phryder ymddangosiadol wedi gadael rhai pobl â chanfyddiad o safon wael o nyrsio.

Cydnabuwyd bod y mater hwn wedi cael sylw fel maes pryder yn Adroddiad Andrews yn ddiweddar, 'Ymddiried mewn Gofal', ar Fwrdd lechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac yn sgil hynny, roedd pob Bwrdd lechyd wedi ei adolygu. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno ymweliadau dirybudd a'r Cyngor lechyd Cymuned (CIC) i weithredu "gwyliau gofal" mewn ysbytai.

Parhaodd y Cyngor Iechyd Cymuned i gynnal ymweliadau â rhybudd a rhai dirybudd ar bob agwedd o ofal, gan gynnwys trugaredd ac urddas. Mae'r ymweliadau hyn wedi bod yn arf hynod o werthfawr ar gyfer nodi arferion gwaith da a drwg ac i rannu arfer da. Fe wnaeth cynrychiolwyr iechyd wirio a oedd hawl i'r ymweliadau hyn ddigwydd yn ystod 'amser llonydd i gael bwyd'.

Roedd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i addysgu'r staff Iechyd am fanteision ymweliadau Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer cleifion a gweithwyr iechyd fel eu gilydd. Mae angen meddwl am y Cyngor Iechyd Cymuned fel cyfaill cefnogol yn hytrach na gwrthwynebydd beirniadol.

Clywodd y Pwyllgor fod Ysbyty Maelor Wrecsam wedi bod yn cymryd rhan mewn cynllun peilot o'r enw '*Want Great Care*', a oedd yn holi barn cleifion am eu profiadau gofal yn yr ysbyty. Fel yr arfer, bydd y cynllun peilot hwn yn cael ei werthuso ar ôl iddo ddod i ben ym mis Ionawr 2015 cyn dod i benderfyniad ar ei addasrwydd i'w gyflwyno ar draws sefydliadau Bwrdd Iechyd eraill. Byddai angen ystyried yr amharodrwydd posibl i adrodd nôl ar brofiad negyddol petai angen triniaeth barhaus.

Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau gan swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

- bod trugaredd ac urddas yn ffurfio rhan o'r rhaglen hyfforddi nyrsio sylfaenol;
- bod trin pobl ag urddas a thrugaredd yn rhan annatod o alwedigaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- y dylai pawb gael eu trin yn gwrtais a chyda pharch bob amser a dylid annog staff i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau nad oedd yn cyrraedd y nod hwn.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes bod staff rheng flaen wedi cael hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid yn ddiweddar ar "Dull Sir Ddinbych" a oedd wedi arwain at lyfr gwaith a fyddai'n cael ei ddosbarthu i bob gweithiwr. Dywedodd y derbyniwyd ymateb cwbl gadarnhaol gan gleifion i wasanaethau a oedd yn cael eu darparu dan y Fframwaith hwn, ac roeddynt yn teimlo eu bod wedi'u trin ag urddas a pharch. Serch hynny, gofynnodd yr aelodau i'r swyddogion fod yn ystyriol o lefel uchel o fodlonrwydd ffug gyda lefel y gwasanaethau, ar y sail fod pobl ddiamddiffyn yn gyndyn o feirniadu'r gwasanaethau roeddynt yn eu derbyn am eu bod ofn eu colli.

Fe gadarnhaodd y Swyddogion Bwrdd Iechyd hefyd fod gweithwyr newydd yn gwyllo ffilm addysgu "Beth ydych chi'n ei weld pan fyddwch yn edrych arna i?" yn ystod cyflwyniad, a bod hyfforddiant atodol yn orfodol ar gyfer nyrsys, gyda chefnogaeth rowndiau ac arolygon ategol o'r ward.

Gofynnwyd i swyddogion BIPBC a fyddai Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych (SID) yn dylanwadu ar ddatblygiad eu cynllun 3 blynedd a sut roeddynt yn gweld y Gwasanaeth Iechyd ar ddiweddr y cyfnod hwnnw. Fe sicrhawyd yr aelodau bod y Bwrdd Iechyd wedi cytuno mewn egwyddor yn ddiweddar, i gefnogi'r dull a amlinellwyd yng Nghynllun Integredig Sengl Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) -

Cynllun Lles Sir Ddinbych - a'i un thema o gefnogi annibyniaeth a dygnwch. Byddai'r Strategaeth hwn yn llywio rhan o gynllun strategol tair blynedd newydd y Bwrdd lechyd gan fod nifer o ddyheadau'r Cynllun Lles yn adlewyrchu bwriadau i ddarparu gwasanaeth yn y dyfodol ee, buddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol gyda'r bwriad o leihau hyd arhosiad mewn ysbyty a oedd yn peryglu annibyniaeth hir dymor – roedd ymyrraeth gynnar neu ataliad yn llawer mwy cost effeithiol i bawb yn yr hir dymor.

Cydnabuwyd nad oedd llawer o unigolion angen gofal proffesiynol i fyw yn annibynnol, ond eu bod angen cwmni a chyfle i ryngweithio'n gymdeithasol er mwyn ffynnu. Er mwyn lliniaru'r risg o unigedd cymdeithasol, roedd staff lechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio i ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol o blith y sector gwirfoddol i ddarparu digwyddiadau yn y gymuned. Fe awgrymwyd bod meddygon teulu (sef yr unig gyswilt cymdeithasol i rai) yn rhannu gwybodaeth am y perygl o unigedd a'r gwasanaethau a allai fod ar gael iddynt. Byddai unrhyw wasanaethau a gomisiynir gan sefydliadau gwirfoddol (3ydd sector) yn destun trefniadau monitro contract llym a fyddai'n cynnwys materion diogelu.

Cyfeiriwyd at orwariant mawr posibl y Bwrdd lechyd a gafodd sylw yn y wasg yn ddiweddar. Cadarnhaodd swyddogion iechyd nad oedd y Bwrdd yn destun mesurau arbennig ar hyn o bryd a dywedasant fod y Bwrdd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru (LIC) i leihau'r gorwariant, a oedd yn ganlyniad rhannol i gynnydd araf gyda rhaglen moderneiddio gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru, a tharged arbedion o 8% a osodwyd i'r Bwrdd ei gyflawni.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol am Ofal Cymdeithasol -Gwasanaethau Plant ac Oedolion, a oedd yn gwybod am gynllun drafft 3 blynedd y Bwrdd lechyd, bod y cynllun yn edrych yn obeithiol gyda thri isranbarth yn seiliedig ar uno arfaethedig Awdurdodau Lleol, ac felly tri ysbyty cyffredinol yn canolbwytio ar arbenigeddau gwahanol.

Trafododd y Pwyllgor adolygiad o drefniadau llywodraethu a gweithredu Fforymau Partneriaeth ac Arweinyddiaeth newydd a Phanel Dinas yddion. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y canlynol:

- bod gan unrhyw bwyllgorau neu grwpiau newydd Bwrdd lechyd oedd yn ymdrin ag ardaloedd awdurdod lleol Conwy a Sir Ddinbych, nifer cyfartal o gynrychiolwyr o'r ddwy ardal arnynt;
- i'r Pwyllgor edrych ar gyfansoddiad, reciwtio a phenodi ar gyfer y Panel Dinas yddion newydd pan fydd y manylion ar gael
- i wneud ymholiadau ynglŷn ag a fyddai BIPBC yn gwneud cais am y cyllid ychwanegol sydd ar gael gan Lywodraeth y DU ar gyfer wasanaethau dementia, ac os felly pa wasanaethau fyddai'n elwa o ystyried mai gogledd Cymru oedd â'r gyfradd isaf yng Nghymru am roi diagnosis dementia.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes, er y byddai arian Cronfa Gofal Canolraddol (CGC) yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2015, roedd yn obeithiol y gallai trafodaethau ddechrau gyda'r Bwrdd lechyd cyn bo hir i edrych ar

gyllid ychwanegol a glustnodwyd i'r Gwasanaeth lechyd y gellid ei ddefnyddio i ariannu a chefnogi'r gwaith ardderchog a gychwynnwyd gyda'r arian CGC. Gofynnodd hefyd yngylch argaeledd fideo cyflwyniad y Bwrdd lechyd ar drugaredd ac urddas sylfaenol er mwyn hyfforddi cynulleidfa ehangach staff gofal cymdeithasol.

Dyweddodd yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) ei bod eisoes wedi bod gweld drafft o gynllun tair blynedd newydd y Bwrdd lechyd. Roedd hi'n teimlo bod modd ei gyflwyno ac roedd hi'n gobeithio na fyddai'r sylw negyddol yn y wasg yn ddiweddar yngylch y Bwrdd lechyd yn tynnu sylw oddi ar ei weithrediad ac yn tanseilio ei gallu i'w ddarparu. Roedd yr Aelod Arweiniol yn obeithiol y byddai yna ddull mwy cydlynol wrth ddatblygu polisi genedlaethol a phenderfynu ar gyllid gan fod gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol bellach yn disgyn o fewn portffolio cyfrifoldebau'r Gweinidog LIC.

Yn dilyn trafodaeth fanwl gan y Pwyllgor:

**Penderfynwyd:** nodi pob gweithred a gymerwyd hyd yn hyn gan yr holl fudd-ddeiliaid i gyflwyno'r Datganiad o Fwriad i ddarparu gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth, yn amodol ar yr uchod.

## 6 ARDALOEDD

Cytunwyd i uno'r cyflwyniadau ar Ardaloedd a Gweithdrefnau Gadael Ysbytai o ystyried rhyngberthynas y pynciau.

## 7 HYLENDID A RHEOLI AFIECHYD

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Nysrio (Atal Heintiau) BIPBC a amlinelloedd y camau a gymerwyd hyd yn hyn er mwyn lleihau'r niferoedd o heintiau sy'n cael eu dal mewn ysbytai. Roedd yn gydnabyddiaeth gyffredinol, y bu cyfradd uwch o Clostridium Difficile (C. diff) yng Nghymru nag yn Lloegr yn 2013.

Cymerwyd camau i ymdrin â hyn drwy newid arferion glanhau gan gynnwys defnyddio cynyrrch sy'n seiliedig ar glorin a chadachau microfibr. Roedd hyn wedi cael effaith wirioneddol ar lendid gweledol. Mae swyddogion y Bwrdd yn cydnabod bod rhai meysydd o Ysbyty Glan Clwyd yn edrych yn fudr er eu bod yn lân oherwydd cyfansoddiad yr adeilad yn methu.

Pwysleisiodd swyddogion y Bwrdd ymrwymiad y Bwrdd i reoli heintiau a mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrth-ficrobaidd a oedd yn broblem fyd-eang, nid mewn ysbytai yn unig, ond mewn lleoliadau gofal sylfaenol megis meddygfeydd teulu hefyd. Roedd ynt wedi buddsoddi adnoddau ariannol ac wedi reciwtio staff yn benodol i fynd i'r afael â rheoli heintiau o fewn sefydliadau'r Bwrdd ac ar y wardiau.

Gwelwyd gwelliannau eisoes i reoli heintiau ac mae'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn wedi'i ddilysu'n allanol. Roedd y Bwrdd wedi ymrwymo i ysgogi

gwelliant drwy archwilio'r ddadansoddiad achos. Maent bellach yn canolbwytio ar welliant pellach i brosesau glanhau a lleihau achosion o MRSA a heintiau eraill trwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Hysbyswyd y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ystadegau, sydd ar gael i'r cyhoedd, sydd yn dangos achosion o C. diff.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor bryder y gallai nyrsys a gweithwyr gofal iechyd eraill gael eu gweld yn gwisgo eu dillad ward/gwaith y tu allan i'w amgylchedd gwaith glân, ee, yn siopa mewn archfarchnadoedd ac ati, ac yn cwestiynu sut roedd hyn yn effeithio ar reoli haint ac a oedd unrhyw bolisiâu yn ymwneud â'r mater hwn.

Cadarnhaodd swyddogion iechyd fod gan y Bwrdd lechyd bolisi clir ar wisgo gwisgoedd y tu allan i ysbytai a thra oddi ar ddyletswydd, a bod gwisgo gwisg weithredol mewn amgylchedd nad oedd yn ymwneud â lleoliad iechyd y Bwrdd, yn fater disgynblu.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd swyddogion lechyd fod:

- staff yn cael eu hannog yn aml i herio arferion o beidio â chydymffurfio â'r arferion gwisg a hylendid, fel yr oedd cleifion ac ymwelwyr;
- ffedogau yn cael eu hystyried yn llawer mwy hylan na'r cotiau gwyn llawes hir ar gyfer yr holl staff yr ysbyty;
- mae cleifion wedi cael eu hannog i ddilyn gofynion ymolchi a gwisgo wrth gyrraedd yr ysbyty a chyn-llawdriniaeth. Os bydd claf yn gwrthod cydymffurfio â'r ceisiadau hyn ni fydd modd gweithredu yn eu herbyn gan fod rhaid i staff barchu hawl unigolion i ddewis. Fodd bynnag, byddai unrhyw feysydd agored ar gyfer llawdriniaeth yn cael eu glanhau;
- roedd clustnodi wardiau unigol i lanhawyr wedi bod yn arfer da. Os yw glanhawyr yn gyfrifol am ardaloedd penodol, y canfyddiad oedd bod gan ddynt falchder yn eu gwaith. Roedd cyfarfodydd rheolaidd gyda'u harweinydd wardiau yn arwain at well cyfathrebu a gwelliant yn yr amgylchedd.
- roedd cydberthynas glir rhwng adeiladau glân, modern a hylendid, felly roedd buddsoddiad pellach yn cael ei wneud mewn staff domestig;
- roedd pob toiled yng nghyffiniau ystafelloedd llawdriniaeth yn cynnwys basnau ymolchi yn unol â rheoliadau adeiladu;
- fe nodwyd nad oedd digon o gadeiriau i ymwelwyr ar wardiau, ac roedd hyn yn golygu bod ymwelwyr yn eistedd ar welyau cleifion tra'n ymweld. Bydd rhagor o gadeiriau yn cael eu darparu;
- cynhaliwyd ymweliadau llywodraethu clinigol i feddygfeydd meddygon teulu i gynnal gwiriadau dirybudd;
- yn y blynnyddoedd diwethaf roedd gormod o fwlch rhwng arweinwyr a staff rheng-flaen, mae hyn bellach yn cael ei gywiro;

- mae urddas a pharch bellach yn cael eu hyrwyddo ger y 'drws ffrynt' ee, yn ddiweddar cafodd system o ddosbarthu cleifion mewn ambiwlansys y tu allan i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys ei cyflwyno. Roedd hyn wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol gan arwain at gleifion yn cael eu cyfeirio i'r mannau priodol i gael triniaeth cyn gynted ag y bo modd, gan ryddhau ambiwlansys i fynd i ateb eu galwad nesaf. O ganlyniad roedd gweld ambiwlansys yn ciwio y tu allan i adran Damweiniau ac Achosion Brys bellach yn eithriad nid yn ddigwyddiad rheolaidd;
- nid yw cau rhai o'r ysbytai cymuned wedi cymhlethu amseroedd aros ambiwlans yn yr ysbytai cyffredinol, gan fod yr ysbytai sydd wedi cau o safon gwael iawn ac felly yn berygl cynyddol i gleifion oedd yn dioddef o heintiau a ddaliwyd yn yr ysbyty;
- yn y pendraw byddai gwaith integredig rhwng staff meddygol ac anfeddygol yn arwain at y profiad gorau posibl i'r claf ar adeg ofidus iawn.

## 8 GWEITHDREFNAU GADAEL YSBYTAI

Trafodwyd y cyflwyniad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ac adroddiadau ar lafar ar gyfer Ardaloedd a Gweithdrefnau Gadael Ysbtytai, o dan yr un eitem fusnes. Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at yr adborth a dderbyniwyd hyd yn hyn a'r ystadegau ar y nifer sy'n manteisio ar y Gwasanaeth Ardaloedd newydd.

Fe rannwyd gwybodaeth ynghylch yr ardaloedd ychwanegol sydd wrthi'n cael eu datblygu yn rhan o'r Gwasanaeth, a oedd yn cynnwys cynllunio gweithlu. Rhoddwyd manylion am Wasanaeth Pwynt Mynediad Sengl a gafodd ei lansio'n ddiweddar, gan gynnwys yr asesiadau gwahanol sydd ar gael yn rhan o'r Gwasanaeth hwn. Mae'r gwasanaethau Ardaloedd a Phwynt Mynediad Sengl yn cefnogi cynllunio ar gyfer gadael ysbyty a gofalwyr i'w cefnogi.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd y swyddogion:

- o 1 Rhagfyr 2014, byddai un ddogfen nrysio integredig 16 tudalen yn cael ei chyflwyno ym mhob ysbyty BIPBC. Byddai'r ddogfen hon yn manylu ar 'daith' y claf yr holl ffordd drwedd o gael eu derbyn i'r ysbyty hyd at gael gadael, a byddai'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i gynorthwyo a gwella'r broses gadael. Fe luniwyd y ddogfen i wella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r holl fudd-ddeiliaid, gan gynnwys y Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl, gan ei fod wedi dod i'r amlwg bod gan ysbytai cymuned wybodaeth o safon llawer gwell ar siwrneiau cleifion drwy ysbytai;
- roedd uwch arweinwyr bellach yn cael eu cyflwyno i ysbytai cymuned ac roedd y Bwrdd Iechyd yn edrych ar ddichonoldeb newid y broses gadael dan arweiniad 'meddyg penodol' mewn ysbytai cymuned, i broses dan arweiniad amlddisgyblaethol. Roedd angen gwneud rhagor o waith i ymdrin â'r cynnig hwn;
- roedd gan yr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (YGAC) fodel effeithiol ar waith a elwir yn *Paramedic Pathfinder* - ei nod oedd darparu lefel briodol o ofal ar yr amser priodol. Mae ymdrechion ar y gweill i geisio dod â'r YGAC

i mewn i'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl gan y teimlwyd y byddai hyn yn cyd-fynd â'r gwasanaethau sydd eisoes ar gael dan Pwynt Mynediad Sengl;

- roedd angen mwy o waith er mwyn cryfhau'r cysylltiadau gwaith gyda'r sector annibynnol;
- roedd y Gwasanaeth Ardaloeedd yn wasanaeth hyblyg wedi'i anelu at ddiwallu anghenion pobl a chefnogi eu hannibyniaeth mewn modd effeithiol, â llai o ogwydd tuag at y broses, ac esmwyth rhwng lechyd a Gofal Cymdeithasol, ac i'r gwrthwyneb;
- roedd timau amlddisgyblaeth bellach yn weithredol ym mhob Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'r timau hyn wrth law i rannu arbenigedd, gwybodaeth ac i gyfeirio cleifion a gofalwyr i holl wasanaethau sydd ar gael iddynt;
- mae pob meddygfa teulu yn Sir Ddinbych, ac eithrio un, yn ymwneud â'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl;
- byddai trigolion Sir Ddinbych oedd yn derbyn driniaeth mewn ysbtyt y tu allan i'r sir hefyd yn cael yr un hawliau i'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl â'r rheini oedd yn derbyn triniaeth o fewn y sir.
- gallai unigolion gyfeirio eu hunain i'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl. Gallai pobl eraill gyfeirio pobl at y Gwasanaeth gyda caniatâd yr unigolyn. Yr unig amser nad oedd angen caniatâd yr unigolyn i gyfeirio at y Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl oedd os oedd pryderon diogelu;
- fel gydag unrhyw wasanaeth ifanc, byddai yna drafferthion. Ar ôl gweithio drwy'r rhain, roedd gan y cysyniad y potensial i fod yn wasanaeth da iawn ar gyfer yr unigolion sydd ei angen a'r ymarferwyr, gan ei fod cyfuno agweddu allweddol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gwneud y cyfan ar gael drwy gysylltiad cychwynnol gyda'r gwasanaeth;
- cytunodd swyddogion y byddai copi o daflen a cherdyn busnes Pwynt Mynediad Sengl ar gael i bob cynghorydd sir drwy'r system bost mewnol, byddai hyn yn galluogi cynghorwyr i hyrwyddo'r gwasanaeth i drigolion yn eu hardaloedd;
- roedd atgyfeiriadau Anableddau Dysgu i'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl yn tueddu i fod yn bobl ifanc yn cael eu trosglwyddo o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion;
- byddai'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl yn ystyried dewis iaith defnyddwyr gwasanaethau er mwyn cyfathrebu.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

**Penderfynwyd:** derbyn yr adroddiadau a gofyn am adroddiad ar y cynnydd a wnaed gyda sefydlu'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl i gael ei gynnwys yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ymhen deuddeg mis, yn amodol ar y sylwadau uchod.

## **9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Ystyriodd y Pwyllgor ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel y manylir yn Atodiad 1. Cytunodd yr aelodau iadael 3 eitem ar y rhaglen yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Penderfynwyd, yn unol â'r eitem fusnes uchod, i ohirio'r adroddiad cynnydd ar Wasanaeth Pwynt Mynediad Sengl o gyfarfod mis Chwefror hyd at fis Medi 2015, pan fyddai'r Gwasanaeth wedi cael ei sefydlu'n well.

Bod adroddiad ar y Panel Dinasyddion arfaethedig yn cael ei gynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Atgoffwyd yr aelodau bod yr hyfforddiant Sgiliau Cadeirio Archwilio ar 27 Tachwedd yn agored i bob aelod - nid Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Grŵp yn unig - byddai manylion y cws yn cael eu hailddosbarthu. Felly:

**Penderfynwyd:** fod y Pwyllgor yn cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar yr uchod.

## **10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Dyweddodd y Cyngropydd Richard Davies ei fod wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod i baratoi ar gyfer her Gwella a Moderneiddio Busnes y Gwasanaeth. Nid oedd unrhyw gynrychiolwyr o Bwyllgorau Archwilio eraill yn bresennol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	18 Rhagfyr 2014
Aelodau Arweiniol:	Aelod Arweiniol Hamdden, Twristiaeth leuenctid a Datblygu Gwledig ac Aelod Arweiniol Addysg
Awdur yr Adroddiad:	Arweinydd Tîm Datblygu Busnes ac Economi (De)

---

Teitl:	Partneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig
--------	---------------------------------------

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) Cymru - 2007-2013 a'r broses y mae Llywodraeth Cymru yn ei dilyn wrth ddarparu gweithgareddau sy'n cefnogi cefn gwlad a chymunedau gwledig. Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 yn rhan o strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd (UE) i wneud ein cefn gwlad yn lle gwell i fyw ac i weithio ynddo.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau am sefyllfa bresennol dull partneriaethol Llywodraeth Cymru (LIC) wrth gyflawni'r Cynllun Datblygu Gwledig (2007-2013). Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth am Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn y Sir Ddinbych Wledig. Daw'r rhaglen bresennol i ben ym mis Rhagfyr 2014, a hyd yn hyn nid yw Cynllun Datblygu Gwledig 2014–2020 wedi ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Adroddir ar lafar am y cynnydd wnaed gyda hwn yn y cyfarfod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dynodi arferion da o ran sut mae rhaglen gyllid bresennol y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei chyflawni yn y Sir Ddinbych Wledig ac unrhyw ddysgu y gellir ei roi ar waith yng nghyfnod y rhaglen newydd.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Caiff y Cynllun Datblygu Gwledig ei ariannu gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a chan Lywodraeth Cymru. Caiff y cyllid ar gyfer y rhaglen hon ei gyfyngu i ardaloedd sy'n cael eu diffinio fel rhai gwledig, ac felly yn Sir Ddinbych mae pob ward yn gymwys ac eithrio'r Rhyl, Prestatyn a Gallt Melyd a Diserth.

Mae i'r Cynllun Datblygu Gwledig bedwar maes, a elwir yn Echel 1, 2, 3 a 4.

**ECHEL 1** - gwneud ffermio, coedwigaeth a phrosesu bwyd yn fwy cystadleuol.

**ECHEL 2** - gwarchod ein tirwedd a'r amgylchedd.

**ECHEL 3** - gwella ansawdd bywyd ac annog arallgyfeirio.

**ECHEL 4** – dull peilota er mwyn cynorthwyo cymunedau gyda datblygu gwledig yn defnyddio'r dull LEADER (sef methodoleg ar gyfer ymgysylltu ar lawr gwlad ac ar gyfer treialu dulliau arloesol, prosesau a chynnrych yn gyn-fasnachol).

Mae **Echel 1 a 2** yn cael eu rheoli a'u darparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae **Echel 3 a 4** yn cael eu rheoli gan bartneriaethau lleol a chan Grwpiau Gweithredu Lleol.

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am gyllid o dan y rhaglen hon roedd angen i Bartneriaethau Lleol a Grwpiau Gweithredu Lleol gyflwyno Strategaeth Ddatblygu Lleol. Lluniwyd y Strategaeth Ddatblygu Lleol gychwynnol yn 2007 a chafoedd ei chysylltu â strategaethau cyfrebol Sir Ddinbych ar y pryd. (Mae copïau ar gael ar gais, ond nid yw'r ddogfen wedi ei hatodi oherwydd ei maint).

Mae Echel 3 yn cael ei chyflawni drwy gyfrwng Partneriaeth Leol ar Lefel Unedol, mae Echel 4 LEADER yn cael ei chyflawni gan Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI). Mae'r Partneriaethau Lleol a'r Grwpiau Gweithredu Lleol yn cyflawni prosiectau i wella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig ac i arallgyfeirio'r economi wledig. Mae prosiectau Echel 4 yn cael eu cyflawni yn defnyddio'r dull LEADER.

Mae pob Partneriaeth Leol wedi eu hymgorffori ac wedi penodi Corff Arweiniol fel gweithredydd arweiniol yn weinyddol ac yn ariannol. Ym mhob achos, y Corff arweiniol a benodwyd ar gyfer y Partneriaethau Lleol yw'r Awdurdod Lleol perthnasol.

Mae gan y Corff Arweiniol (Cyngor Sir Ddinbych) gyfrifoldeb cyffredinol i gynorthwyo Partneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig Sir Ddinbych i gyflawni ei chyfrifoldebau o dan Gytundeb Cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu Echel 3 a 4. Mae hefyd yn cyflawni swyddogaeth ysgrifenyddiaeth y bartneriaeth ac yn hwyluso'r berthynas rhwng y Grŵp Gweithredu Lleol a'r Bartneriaeth, a rhwng y Grŵp Gweithredu Lleol a'r Cydlynau Ariannol, a gyflawnir gan Dîm Hawliau Cyllid Allanol, Cyngor Sir Ddinbych.

Enw'r Grŵp Gweithredu Lleol yw Cadwyn Clwyd Cyfyngedig. Cwmni cyfyngedig trwy warant yw Cadwyn Clwyd sy'n asiantaeth ddatblygu gwledig sy'n rhoi arweiniad a chefnogaeth i ddatblygu ac arallgyfeirio'r economi wledig yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint trwy gyfrwng cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig, cyllid domestig o'r Deyrnas Unedig a chyllid o'r sector preifat. Mae'n gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau lleol er mwyn helpu i ddatblygu a gweithredu prosiectau fydd o fudd i economi leol yr ardal.

Yn rhan o'r Grŵp Gweithredu Lleol mae Bwrdd Cyfarwyddwyr, Grŵp Cyngori Technegol Partneriaethol, Gweithgorau Prosiect a staff y GGLI. Yn gyffredinol, bydd y GGLI yn cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu Echel 3 a 4, ac mae ganddo gyfrifoldeb penodol dros ddatblygu a gweithredu Echel 4 yn defnyddio methodoleg LEADER. Bydd y GGLI yn datblygu camau arloesol i weithredu Echel 4 o fewn cyd-destun y Strategaeth Ddatblygu Lleol, ac yn sicrhau cyfatebolwydd rhwng y camau gweithredu sy'n cael eu peilota dan Echel 4 a phrosiectau prif ffrwd sy'n digwydd yn rhan o Echel 3.

Wedi i Lywodraeth Cymru dderbyn Strategaeth Ddatblygu Lleol Sir Ddinbych yn wreiddiol gwahoddwyd Partneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig Sir Ddinbych i gyflwyno cynllun busnes a phrosiectau o dan Echel 3 a 4 ar gyfer Cynllun Busnes Un (2007-2011) ac yn fwy diweddgar ar gyfer Cynllun Busnes Dau (2011 -2013), sydd bellach wedi ei ymestyn i 2014. Dewisodd y Bartneriaeth wahodd ceisiadau ar gyfer Cynllun Busnes Un a Dau trwy ddull 'galwad agored' lle gwahoddwyd ceisiadau gogyfer â phrosiectau oedd yn mynd i'r afael ag anghenion y Strategaeth Ddatblygu Lleol. Os yn llwyddiannus, byddai'r ymgeiswyr wedyn yn cyflawni'r prosiect. O dan gynllun busnes

dau, dim ond un cais ar gyfer pob un o saith mesur y Cynllun Datblygu Gwledig y gellid ei gyflwyno ar gyfer Echel 3 ac un cais ar gyfer Echel 4.

Cafodd ceisiadau felly eu cyfuno gan y Corff Arweiniol i uchafu'r budd i'r ardal wledig, gyda chymeradwyaeth Partneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig Sir Ddinbych cyn cael eu sgorio maes o law gan Lywodraeth Cymru. Roedd y sawl a oedd yn sgorio yn uwch na'r trothwy (mae hon yn broses gystadleuol gyda chyllideb gyfyngedig) yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Caiff Dangosyddion Perfformiad eu hawgrymu yn ystod y cam ymgeisio, ac os yw'r prosiectau'n llwyddiannus, yna mae'r Dangosyddion Perfformiad hyn hefyd yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Gweler Atodiad 1 ynghlwm sy'n darparu manylion prosiectau ac allbynnau Cynllun Busnes 2, ac Atodiad 2 sy'n rhoi manylion Aelodaeth y Bartneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig a manylion Aelodaeth y Grŵp Gweithredu Lleol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r prosiectau cyfredol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru o dan Gynllun Busnes dau yn darparu:

### ***Blaenoriaeth - datblygu'r economi leol:***

Cyfleoedd newydd am swyddi o ansawdd yn yr ardal wledig a'r sgiliau sydd eu hangen: i gael mynediad at y swyddi hyn; i leihau anweithgarwch economaidd lle bo'n ymarferol; i arallgyfeirio'r sylfaen economaidd leol; i ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer busnesau. Cyflawnir hyn trwy gyfrwng y Grantiau ar gyfer Busnesau bychain a'r cynllun Bwrseriaethau. Mae Cadwyn Clwyd yn ddiweddar wedi sefydlu cynllun bwrseriaeth 'menywod yn mentro'.

### ***Blaenoriaeth - strydoedd glân a thaclus:***

Mae gweithio'n uniongyrchol gyda'r Gymuned wrth fabwysiadu methodoleg LEADER Echel 4 yn galluogi ymgysylltu ar lawr gwlad ac yn blaenoriaethu anghenion y rhai hynny'n lleol. O ganlyniad, mae hyn yn cryfhau'r ac yn diogelu bywiogrwydd cymunedau gwledig ac yn gwella ansawdd bywyd pobl. Gall gweithgarwch y Grŵp Gweithredu Lleol weithio gyda'r gymuned i ddynodi meysydd sy'n peri problemau a pheilot a dulliau a fydd yn arwain at welliannau sy'n cyfrannu at wella'r amgylchedd.

Mae prosiectau Echel 3 a 4 yn mynd i'r afael â gweledigaeth, amcanion a themâu strategol Strategaeth Ddatblygu Lleol Sir Ddinbych er mwyn adeiladu ar gryfderau cynhenid ardaloedd gwledig Sir Ddinbych. Nod cyffredinol y prosiectau yw cefnogi datblygiad cymunedau gwledig cynaliadwy, gan helpu creu ardal wledig lle mae ar bobl eisiau byw, gweithio a buddsoddi ynddi.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Daw costau cynnal swyddogaeth Corff Arweiniol yn gyfan gwbl drwy gyllideb Llywodraeth Cymru sef 15% o gyfanswm gwariant Cyhoeddus prosiectau Echel 3. A daw costau cynnal y Grŵp Gweithredu Lleol drwy gyllideb Llywodraeth Cymru o hyd at 20% o gyfanswm y gwariant cyhoeddus a gymeradwywyd. Mae Cyllideb y Corff Arweiniol hefyd yn cynnwys dyraniad amser ar gyfer y tîm Hawliau Cyllid Allanol er mwyn cyfuno ceisiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaethau eraill ynghlwm yn y gwaith o gyflawni Cynllun Busnes dau prosiectau Echel 3 - megis y tîm

Twristiaeth sy'n cyflawni Prosiect 'Cyrchfan Sir Ddinbych a'r gwasanaeth Datblygu Economaidd a Busnes sy'n darparu Grantiau Creu a Datblygu Busnes yn y Sir Ddinbych Wledig. Mae Cadwyn Clwyd, yn ogystal â chyflawni gweithgarwch Echel 4 drwy'r dull LEADER, hefyd yn cyflawni prosiectau 'Twristiaeth Werdd' a Bwrsariaeth Mentergarwch y Sir Ddinbych Wledig o dan Echel 3.

